

Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer entrepreneuriaid sydd angen dewis fformat cyfreithiol ar gyfer eu busnes. Mae'n bwysig dewis y statws masnachu mwyaf priodol ar gyfer eich busnes yn unol â'r gyfraith. Os bydd eich busnes yn methu, gall y fformat cyfreithiol effeithio ar eich hawliau a'ch cyfrifoldebau. Mae sawl opsiwn ar gael, ac mae angen i chi ddewis y fformat cyfreithiol sy'n gweddu orau i ofynion penodol eich busnes. Mae dewis y fformat cyfreithiol ar gyfer eich menter yn golygu dod i wybod am opsiynau cyfreithiol ar gyfer sefydlu a rhedeg busnes, cymharu fformatau cyfreithiol a dewis yr opsiwn sydd orau i'ch busnes.

Gallech wneud hyn os bydd angen i chi:

1. sefydlu busnes neu fenter gymdeithasol newydd;
2. adolygu strwythur eich busnes neu fenter gymdeithasol ar hyn o bryd;
3. cymryd drosodd busnes neu fenter gymdeithasol arall yn ei blynyddoedd cynnar.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. dod o hyd i gyngor a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r amrywiaeth o strwythurau cyfreithiol ar gyfer eich busnes
2. ymchwilio i'r fformatau cyfreithiol sydd fwyaf addas i'ch busnes
3. nodi'r strwythurau cyfreithiol posibl ar gyfer eich busnes
4. cymharu manteision ac anfanteision pob fformat cyfreithiol
5. ymgynghori ag arbenigwyr proffesiynol ar y fformat cyfreithiol, lle bo angen
6. nodi'r dogfennau cyfreithiol gofynnol i'w cwblhau ar gyfer y fformat busnes a ddewiswyd
7. penderfynu pwy sy'n gwneud y penderfyniadau rheoli ym mhob fformat cyfreithiol
8. ymchwilio i'r opsiynau ariannol a'r rhwymedigaethau ariannol yn dibynnu ar y fformat cyfreithiol
9. nodi faint o drethi i'w dalu a'r cofnodion i'w cadw
10. cael gwybod am gytundebau cyfreithiol a cheisio cyngor ychwanegol ar yr hyn y maent yn ei olygu i chi a nodau eich busnes
11. ystyried barn eich cefnogwyr wrth ddewis opsiwn masnachu
12. dadansoddi sut bydd yr opsiynau masnachu yn effeithio ar eich cwsmeriaid, cyflenwyr, rhanddeiliaid a gweithgareddau eich busnes yn y dyfodol
13. gwneud yn siŵr bod y ffordd yr ydych yn sefydlu eich busnes yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Fformat cyfreithiol

1. y mathau o strwythurau cyfreithiol sydd ar gael ar gyfer eich busnes, megis unig fasnachwr, partneriaeth, Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC), cwmni cyfyngedig (Cyf), Cwmni Cyfyngedig Preifat (PLC), cwmni Hawl i Reoli (RTM), Cwmni Buddiant Cymunedol (CIC)
2. y math o ddogfennaeth sydd ei hangen ar gyfer pob fformat o'r busnes
3. yr awdurdodau y mae'n rhaid i chi eu hysbysu am eich busnes
4. y gofynion treth ac Yswiriant Gwladol a sut rydych yn eu talu
5. yr effaith y bydd gwahanol opsiynau yn ei chael ar eich busnes o ran cwsmeriaid a chyflenwyr
6. pwy sy'n gwneud y penderfyniadau rheoli yn eich busnes
7. y mathau o gofnodion a chyfrifon i'w cadw
8. rhwymedigaethau ariannol gwahanol fformatau cyfreithiol
9. y math o statws masnachu ar gyfer diwallu anghenion masnachol ac anghenion eraill eich busnes
10. effaith gwahanol opsiynau ar eich sefyllfa o ran treth a faint o drethi i'w dalu
11. y risgiau neu'r goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig

Y gyfraith a rheoliadau

12. y rhwymedigaethau fydd gennych chi a'ch busnes gan gynnwys yswiriant, caniatâd cynllunio, rheoliadau ac is-ddeddfau lleol, rheoliadau iechyd a diogelwch, rheoliadau tân, rheolau safonau masnach, rheolau hawlfraint a phatentau
13. yr agweddau ar gyfraith a rheoliadau cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i bob busnes, gan gynnwys eich un chi

Gwybodaeth a chyngor

14. ffynonellau gwybodaeth am y gyfraith a rheoliadau sy'n ymwneud ag amrywiaeth o strwythurau cyfreithiol ar gyfer eich busnes

15. pam mae'n bwysig defnyddio cyngor technegol a phroffesiynol i gael gwybod am ddeddfau a rheoliadau

Cysylltiadau Allanol